

# Galwad

Gweddïau o Eiriolaeth

## Gweddïau o Eiriolaeth

Dduw grasol,  
Gweddiwn yn dy bresenoldeb dros anghenion y byd,  
gan gydnabod ein rôl wrth ymateb i'th gariad,  
a gofyn am gymorth yr Ysbryd Glân wrth inni weddio.

Gweddiwn dros y rhai sy'n wynebu rhwyg, gelyniaeth,  
rhyfel...  
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n wynebu newyn, digartrefedd,  
diweithdra, anhawster economaidd...  
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n boenus, yn bryderus, yn wael,  
yn flinedig, yn isel eu hysbryd, dan straen...  
Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n herio anghyfiawnder, sy'n codi  
llais, sy'n cynnig llais proffwydol, sy'n ymgyrchu dros fyd  
gwel...

Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai sydd, wrth ymateb i'th gariad,  
yn eu cael eu hunain yn gas gan eraill, yn ddirmygedig, ar y  
cyrion...

Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai nad ydynt yn adnabod dy gariad,  
sy'n byw heb gydnabod y cânt eu coleddu, eu cadarnhau  
a'u derbyn trwy Iesu Grist...

Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu.**

Gweddiwn dros y rhai sy'n ymateb i'th alwad hyd yn oed  
pan fydd yn heriol, neu'n golygu bod yn rhaid iddynt wneud  
pethau sy'n anghyfforddus...

Dduw sy'n ein galw i ddilyn mewn cariad,  
**galw o'th Eglwys bobl i helpu. Amen.**